

Perchennog/Preswlydd

Gofynnwch am / Please ask for: A McGowan

Fy Nghyf/ My Ref: IF062/23/AMC

Dyddiad/ Date: 16 Mehefin 2023

Annwyl Syr / Fadam,

Yn 2019, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad â thrigolion yr ardal er mwyn trafod cyflwyno parcio i breswylwyr / cyfyngiad aros ar Heol y Gogledd, Stryd Edward, Stryd y Seiffon, Stryd John a Stryd y Groes.

O'r strydoedd yma, preswylwyr Stryd Edward yn unig oedd yn cefnogi'r syniad ac felly cyflwynwyd parcio i breswylwyr / cyfyngiad aros ar Stryd Edward yn unig.

Yn unol â'i bolisi, mae'r Cyngor bellach yn cynnal adolygiad dilynol ar y cynllun er mwyn deall a fyddai preswylwyr Heol y Gogledd a Stryd y Seiffon yn cefnogi cyflwyno parcio i breswylwyr ar y strydoedd.

Serch hynny, er bod manteision i rai trigolion wrth gyflwyno parthau parcio i drigolion, mae cynlluniau o'r fath yn ddarostyngedig i nifer o amodau a chyfyngiadau. Mae rhestr o gwestiynau cyffredin sy'n ymwneud â'r cynlluniau parcio i drigolion wedi'i chynnwys a fydd yn esbonio'r effeithiau cadarnhaol a negyddol o fod yn rhan o barth.

At hynny, mewn rhai achosion, mae'r strydoedd yn rhy gul i ganiatáu i drigolion barcio ar naill ochr y ffordd a chadw llif y traffig yn glir ar yr un pryd.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynnal llif y traffig a fyddai dim modd iddo gyflwyno mesurau a fyddai'n tarfu ar symudiad cerbydau. Felly, yn y sefyllfaoedd yma, byddai modd cyflwyno parthau parcio i drigolion ar un ochr o'r ffordd a chyfyngiadau aros ar y llall. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai hyn yn lleihau'r llefydd parcio sydd yno eisoes.

I wneud unrhyw newidiadau ar stryd benodol, rhaid i'r Cyngor dderbyn ymatebion gan o leiaf 50% o aelwydydd ar y stryd honno yn cefnogi'r cynllun.

Felly, i gael y darlun llawn o ddymuniadau trigolion, mae'n bwysig eich bod chi'n ymateb i'r arolwg yma, waeth beth yw eich barn. Rydw i wedi cynnwys ffurflen ac amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges e-bost: gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 7 Gorffennaf 2023. Os na fydda i'n clywed gennych chi erbyn y dyddiad yna, bydda i'n tybio dydych chi ddim yn cefnogi cyflwyno system parcio â thrwydded a chyfyngiad aros.

Gwasanaethau Rheng-flaen

Frontline Services

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Roger Waters BSc CEng MICE


Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Bydd trigolion yn cael gwybod am ganlyniadau'r arolwg maes o law. Fodd bynnag, fydd y Cyngor ddim yn gwneud ymateb ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd.

Yn dilyn cwblhau'r adolygiad cyfredol, byddwn ni'n casglu'r canlyniadau ac yn rhannu'r wybodaeth â phreswylwyr.

Os na fydd yr ymatebion yn cefnogi newid y drefn, fydd y Cyngor ddim yn canolbwyntio ar y cynllun eto yn y dyfodol agos.

Os oes cefnogaeth i newid y cynllun ar stryd benodol, yna bydd angen ymgynghori ymhellach ag aelwydydd y stryd honno.

Does dim cynigion i gael gwarded ar unrhyw un o'r cyfyngiadau aros, megis llinellau melyn dwbl. Ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol i gynnal diogelwch ffyrdd a llif traffig, ac felly byddan nhw'n parhau i fod ar waith.

Yn gywir



A McGowan
Prif Swyddog, Materion Rheoli Traffig

Owner / Occupier

Gofynnwch Am/ Please Ask For A McGowan

Fy Nghyf/ My Ref:IF062/23/AMC

Dyddiad/ Date: 16 June 2023

Dear Sir / Madam,

In 2019 the Council consulted with residents on the introduction of residents parking / limited waiting in North Road, Edward Street, Syphon Street, John Street and Cross Street.

Of the streets consulted, only Edward Street responded in support of its introduction and therefore, residents parking / limited waiting was introduced in Edward Street alone.

In line with policy, the Council is now carrying out a follow up review of the scheme to establish if residents of North Road and Syphon Street would support the introduction of residents parking in their street.

However, please note that whilst the introduction of residents parking zones may provide benefits to some residents, such schemes are subject to a variety of conditions and restrictions. Attached is a list of frequently asked questions relating to residents parking schemes for your information which should provide you with a better understanding of both the positive and negative effects of being part of a zone.

Furthermore, in some cases, the streets are not wide enough to be able to provide residents parking on both sides of the road and maintain enough road width to allow traffic to flow freely.

The Council has a duty to maintain traffic flow and could not introduce measures which would interfere with vehicle movements. Therefore in these situations, residents parking could be introduced on one side of the road and waiting restrictions on the other however, this may have the effect of reducing existing parking capacity in those streets.

In order to introduce residents parking in a street, the Council requires at least 50% of all households in that street to respond in support.

Therefore, to get an accurate picture of the wishes of residents it is important that you respond to this survey regardless of your view. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 7 July 2023. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you do not support the introduction of resident parking / limited waiting.

Gwasanaethau Rheng-flaen

Ffôn/Tel: 01443 425001

Frontline Services

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Roger Waters BSc CEng MICE

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Residents will be informed of the outcome in due course however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

Following the completion of the this review, the results will be collated and residents informed of the outcome.

If the responses received do not support any changes, the Council will not revisit the scheme in the near future.

If there is support for change within a particular street, further consultation with the households of that street will be required.

There are no proposals to remove any of the waiting restrictions such as double yellow lines. These are considered necessary to maintain road safety and traffic flow and will remain in place

Yours faithfully

A handwritten signature in blue ink that reads "A.K. McGowan".

A McGowan

Prif Swyddog, Materion Rheoli Traffig, Principal Officer, Traffic Management